

Gweithio hybrid: sgiliau ar gyfer trawsnewid digidol



This item contains selected online content. It is for use alongside, not as a replacement for the module website, which is the primary study format and contains activities and resources that cannot be replicated in the printed versions.

Cefndir y cwrs rhad ac am ddim hwn

Mae'r cwrs rhad ac am ddim hwn yn rhan wedi'i addasu o gwrs y Brifysgol Agored .

Gallai'r fersiwn hon o'r cynnwys ddefnyddio fideo, delweddau a chynnwys rhyngweithiol na fydd efallai yn gweithio ar eich dyfais.

Gallwch fanteisio ar y cwrs am ddim hwn oherwydd cafodd ei ddylunio'n wreiddiol ar OpenLearn, cartref dysgu am ddim gan y Brifysgol Agored –

Yno byddwch hefyd yn gallu olrhain eich cynnydd drwy eich cofnod gweithgaredd, y byddwch hefyd yn gallu ei ddefnyddio i ddangos eich dysg.

Hawlfraint © 2022 Y Brifysgol Agored

Eiddo deallusol

Oni nodir yn wahanol, caiff yr adnodd hwn ei ryddhau o dan delerau'r Drwydded Creative Commons v4.0 http://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/deed.en_GB. O fewn hynny mae'r Brifysgol Agored yn dehongli'r drwydded hon fel a ganlyn:

www.open.edu/openlearn/about-openlearn/frequently-asked-questions-on-openlearn. Cedwir neu rheolir yr hawlfraint a'r hawliau sydd y tu hwnt i delerau'r Drwydded Creative Commons gan y Brifysgol Agored. Darllenwch y testun yn llawn cyn defnyddio unrhyw ran o'r cynnwys.

Credwn mai'r prif rwysr rhag cael mynediad at brofiadau addysgiadol o safon uchel yw cost, a dyna pam y ceisiwn gyhoeddi cymaint â phosibl o gynnwys rhad ac am ddim dan drwydded agored. Os bydd hi'n anodd cyhoeddi cynnwys dan ein trwydded Creative Commons ddewisol (e.e. oherwydd ni allwn ei fforddio neu gael caniatâd neu ddod o hyd i ddulliau eraill addas), byddwn yn cyhoeddi'r deunyddiau am ddim serch hynny dan drwydded defnyddiwr bersonol.

Y rheswm am hynny yw y bydd y profiad dysgu a gynigir bob amser o'r un safon uchel a dylid bob amser ystyried hynny'n elfen gadarnhaol – hyd yn oed os bydd y trwyddedu, ambell waith, yn wahanol i Creative Commons.

Wrth ddefnyddio'r cynnwys rhaid i chi ein cydnabod ni (Y Brifysgol Agored) (yr OU) ac unrhyw awdur cydnabyddedig yn unol â thelerau'r Drwydded Creative Commons.

Defnyddir yr adran Gydnabyddiaethau i restru, ymysg pethau eraill, cynnwys trwyddedig trydydd parti (Perchenogol), nad yw'n destun y Drwydded Creative Commons. Rhaid defnyddio (a chadw) cynnwys perchenogol yn gyflawn ac yng nghyd-destun y cynnwys bob amser.

Defnyddir yr adran Gydnabyddiaethau hefyd i dynnu i'ch sylw unrhyw Gyfyngiadau Arbennig a all fod yn berthnasol i'r cynnwys. Er enghraifft, gall fod yna adegau pan nad yw trwydded Sharealike Anfasnachol Creative Commons yn berthnasol i unrhyw ran o'r cynnwys hyd yn oed os yw'n perthyn i ni (Y Brifysgol Agored). Mewn sefyllfaoedd o'r fath, oni nodir yn wahanol, ceir defnyddio'r cynnwys er dibenion personol ac anfasnachol.

Rydym hefyd wedi adnabod deunydd arall yn y cynnwys fel rhai Perchenogol nad yw'n destun Trwydded Creative Commons. Y rhain yw logos y Brifysgol Agored, enwau masnachol a gall hefyd gynnwys rhai delweddau ffotograffig neu fideo a recordiadau sain ac unrhyw ddeunydd arall y dygir at eich sylw.

Gall defnydd anawdurdodedig o unrhyw gynnwys olygu tramgwyddo'r amodau a thelerau a/neu gyfreithiau eiddo deallusol.

Rydym yn cadw'r hawl i addasu, diwygio neu derfynu unrhyw amodau a thelerau a ddarperir yma heb rybudd.

Cedwir neu rheolir unrhyw hawliau sydd y tu hwnt i delerau'r Drwydded Creative Commons gan y Brifysgol Agored.

Pennaeth Eiddo Deallusol, y Brifysgol Agored

Contents

Cyflwyniad	4
Learning Outcomes	5
1 Pam fod sgiliau digidol yn bwysig?	6
1.1 Sgiliau gweithredol hanfodol	8
1.2 Sgiliau digidol ar gyfer y gweithle	11
2 Y gagendor digidol a chynhwysiant	13
2.1 Fframwaith ar gyfer adeiladu galluoedd digidol	15
3 Sgiliau digidol bob dydd	21
4 Datblygu eich hyder digidol a'ch chwilfrydedd	24
4.1 Astudiaeth achos: meithrin diwylliant digidol iach	25
4.2 Pa mor chwilfrydig yn ddigidol ydych chi?	27
5 Deall eich cyfrifoldebau	29
5.1 Llesiant digidol a diogelwch	29
5.2 Llywodraethu digidol a diogelwch gwybodaeth	32
5.3 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)	34
5.4 Eiddo deallusol (IP) a hawlfraint	37
5.5 Beth yw Diogelwch Gwybodaeth?	38
5.6 Rheoli data, gwybodaeth a gwybodaeth ddigidol	40
6 Dyfodol digidol: trawsnewid digidol	44
6.1 Archwilio eich ôl troed carbon digidol	47
Casgliad	51
References	51
Acknowledgements	55

Cyflwyniad

Nod y cwrs hwn yw datblygu'r sgiliau trawsnewid digidol ar gyfer gweithio hybrid fel unigolyn neu dîm yn hytrach na chanolbwyntio ar sut mae galluoedd digidol yn berthnasol i sefydliadau. Er mwyn i sefydliadau adeiladu galluoedd digidol mae'n dechrau gyda'r hyder a'r cymhwysedd gan eu pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u hymddygiad, fel y gallant wneud cyfraniad effeithiol i'r sefydliad.

Galluoedd digidol yw'r sgiliau, yr ymddygiad a'r ddealltwriaeth i'ch galluogi i ffynnu mewn byd digidol. Mae bron pob agwedd ar eich bywyd yn dibynnu ar dechnoleg ac mae angen y galluoedd digidol arnoch i ddefnyddio'r technolegau hyn yn briodol ac yn effeithiol, ar draws ystod o lwyfannau, amgylcheddau a sefyllfaoedd, yn eich bywyd personol ac yn y gweithle.

Wrth i drawsnewidiad digidol y gweithle barhau i gyflymu ac wrth i sefydliadau fabwysiadu arferion gweithio hybrid, mae cyflogwyr yn canolbwyntio ar y galluoedd digidol disgwyledig y dylai gweithwyr eu cael. Mae cyfathrebu trwy e-bost ac ar lwyfannau cyfarfod ar-lein, creu dogfennau, cyflwyniadau a thaenlenni, deall rheoli ffeiliau a data, ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein yn rhai o'r sgiliau allweddol.

Mae'r cwrs hwn yn rhan o'r casgliad [Cefnogi gweithio hybrid a thrawsnewid digidol](#) sy'n canolbwyntio ar weithio hybrid – lle mae gweithwyr yn treulio rhywfaint o'u hamser yn gweithio o bell a rhywfaint yng ngweithle'r cyflogwr.

Learning Outcomes

Ar ôl astudio'r cwrs hwn, dylech allu:

- archwilio arferion a normau presennol eich sefydliad ynghylch gweithio'n ddigidol mewn amgylcheddau hybrid (e.e. o bell ac ar y safle)
- disgrifio cyfrifoldeb ac ymddygiad digidol, gan gynnwys GDPR, data, diogelwch rhwydwaith a llesiant a chynhwysiant digidol
- archwilio fframweithiau, adnoddau a thechnolegau ar gyfer datblygu galluedd digidol
- archwilio sut y gall sgiliau digidol fod yn fwy cynaliadwy a sut y gall sefydliadau gymryd cyfrifoldeb am gynaliadwyedd digidol
- cydnabod bod trawsnewidiad digidol yn parhau ac ystyried dulliau ar gyfer cynllunio ar gyfer newid digidol.

1 Pam fod sgiliau digidol yn bwysig?

Essential digital skills are a step towards learning lots of other new things. They can improve your confidence to use technology for work, learning and daily life.

Many jobs today require digital skills. You need them even for jobs that do not ask for high levels of qualifications or experience. For example, if you work in a warehouse or a shop you may need to keep digital records of stock.

You also need digital skills every day for shopping, banking, learning, and keeping in touch with family and friends.

[National Careers Service](#) (n.d)

Gweithgaredd 1 Pam fod sgiliau digidol yn bwysig?

 10 muned

Gwylwch y fideo lle mae cyfranwyr yn rhannu pam fod sgiliau a galluoedd digidol yn bwysig, effaith y prinder sgiliau digidol a'r sgiliau digidol sydd eu hangen ar sefydliadau.

Video content is not available in this format.



Nawr ystyriwch y canlynol ac ychwanegwch eich barn yn y blwch isod:

- Beth oedd y sgiliau a amlygwyd ganddynt fel y rhai pwysicaf?
- Sut mae'r byd digidol wedi datblygu?
- Pa sgiliau ydych chi'n teimlo sydd angen eu datblygu gan eich sefydliad a chi'ch hun?

Provide your answer...

Mae sgiliau digidol ar gyfer y dyfodol yn hanfodol nid yn unig i sicrhau bod sefydliadau'n ffynnu, ond hefyd er mwyn i gymunedau a chenhedloedd amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol. Mae nod llesiant Cymru Lewyrchus, [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), yn canolbwyntio'n benodol ar y sgiliau ar gyfer y dyfodol: 'Annog sefydliadau i ddatblygu poblogaeth fedrus, addas ar gyfer newidiadau technolegol y dyfodol'.

Gweithgaredd 2 Sgiliau ar gyfer y dyfodol

 20 muned

Darllenwch Adran 5 o [Taith tuag at Gymru lewyrchus](#) ac yna gwyliwch y fideo isod, lle mae Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yn esbonio'r sgiliau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

Video content is not available in this format.



Sut allai eich sefydliad gyfrannu at gynyddu sgiliau digidol y rhai sy'n rhan ohono ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

Ychwanegwch eich barn yn y blwch isod.

Provide your answer...

1.1 Sgiliau gweithredol hanfodol

Mae Fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol (Essential Digital Skills Framework) y Deyrnas Unedig (Gov.uk, 2018) yn amlinellu'r sgiliau hanfodol a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar bob oedolyn i ryngweithio mewn byd digidol. Mae pum categori:

- cyfathrebu
- trin gwybodaeth a chynnwys
- trafod (transacting)
- datrys problemau
- bod yn ddiogel ac yn gyfreithiol ar-lein.

Mae Ffigwr 1 yn dangos perthynas y categorïau hyn â'i gilydd.



Ffigwr 1 Sgiliau Digidol Hanfodol – Diagram o'r Fframwaith (Hawlfraint y Goron, Gov.uk, 2018)

Mae Tabl 1 yn torri'r categorïau i lawr ymhellach ac yn rhoi diffiniadau mwy manwl.

Tabl 1

Bod yn ddiogel ac yn gyfrifol ar-lein ac all-lein	Llesiant digidol, cyfrifoldebau wrth weithio ar-lein – diogelwch, preifatrwydd a diogelu data, hygyrchedd, deall prosesau a pholisïau, ymddygiad, ac ystyriaethau nad ydynt yn ddigidol – e.e. gosod eich desg, peidio ag ysgrifennu eich cyfrinair.
Defnyddio dyfeisiau a thrin gwybodaeth	Deall caledwedd, meddalwedd, systemau gweithredu a chymwysiadau, a sut i reoli a storio gwybodaeth ac asedau digidol.
Cyfathrebu	Sut i gyfathrebu'n effeithiol yn ddigidol yn dibynnu ar yr 'offer' a'r 'cyd-destun'.
Creu a golygu	Datblygu'r sgiliau i greu a golygu trwy ddefnyddio offer digidol, a myfyrio ar arfer gorau a chanllawiau ar gyfer creu cynnwys a chynhyrchion digidol.

Trafod (Transacting)	Y gallu i ryngweithio â ffurflenni, systemau a thaliadau digidol.
Datrys problemau	Y gallu i ddod o hyd i ddatrysiadau a dulliau a defnyddio offer digidol i gynorthwyo â hyn

Mae Tabl 2 yn rhoi enghreifftiau o sgiliau a galluoedd digidol y mae eu hangen yn y gweithle:

Tabl 2

Sgiliau sylfaenol hanfodol y mae pob unigolyn eu hangen	Sgiliau uwch/arbenigol
• Ymddwyn yn ddiogel ac yn gyfreithiol ar-lein • E-bost, negeseua gwib a chyfarfodydd rhithwir • Prosesu geiriau • Ymchwilio ar y we • Cofnodi a thrin data • Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol/rhwydweithio • Datrys problemau • Deall eich ôl troed carbon digidol	• Dylunio profiad defnyddiwr a dylunio digidol • Codio • Rhaglennu a datblygu gwefannau ac apiau • SEO, SEM a chreu cynnwys • Gwyddor data, dadansoddi a delweddu • Dysgu a datblygu digidol • Prosiectau digidol a rheoli cynnyrch • Marchnata digidol a'r cyfryngau cymdeithasol • Galluoedd arweinyddiaeth ddigidol • Gwneud penderfyniadau trawsnewid digidol

Gweithgaredd 3 Pa mor hyderus yn ddigidol ydych chi?

 15 muned

Darllenwch y disgrifiadau o'r sgiliau a'r enghreifftiau yn y Fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol, sydd ar gael naill ai ar:

Wefan [Essential Digital Skills Framework](#) (yn cael ei argymhell os ydych yn defnyddio rhaglen darllen sgrin).

[Essential Digital Skills Framework](#) PDF rhyngweithiol.

Yna defnyddiwch y polau isod i ystyried pa mor hyderus yn ddigidol ydych chi.

Sgiliau digidol sylfaenol

Interactive content is not available in this format.



Cyfathrebu

Interactive content is not available in this format.



Trin gwybodaeth a chynnwys

Interactive content is not available in this format.



Trafod (Transacting)

Interactive content is not available in this format.



Datrys problemau

Interactive content is not available in this format.



Bod yn ddiogel ac yn gyfreithiol ar-lein

Interactive content is not available in this format.



Discussion

I rai sydd yn y gweithle, mae'n bosib y bydd y rhan fwyaf o'r sgiliau a roddir yma yn gyfarwydd. Maent yn deillio o ddogfen [Essential Digital Skills Framework](#) Llywodraeth y Deyrnas Unedig y mae'r gweithgaredd hwn wedi'i seilio arni.

Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am y sgiliau digidol sylfaenol a ddisgrifir yn y ddogfen? Os oes yna feysydd yr hoffech eu datblygu, mae [HM Government Skills Toolkit](#) yn darparu adnoddau i'ch helpu i ddatblygu sgiliau penodol. Mae'r pecyn yn cynnwys [Learn My Way](#), pecyn o adnoddau sy'n darparu hyfforddiant sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol.

1.2 Sgiliau digidol ar gyfer y gweithle

Cyflymodd y pandemig COVID-19 yr angen am drawsnewid digidol a'r gallu i ddatblygu sgiliau a gallu digidol, wrth i unigolion a sefydliadau symud yn gyflym i ffyrdd newydd o weithio. Mae adroddiadau'n awgrymu bod trawsnewid digidol wedi cyflymu tua saith mlynedd yn ystod brig y pandemig yn 2020-21. Ar adeg y cyfnod clo cyntaf, cyflawnodd unigolion a sefydliadau addasiad digidol (h.y. gweithredu datrysiadau gweithio o bell) mewn 11 diwrnod ar gyfartaledd, gallai hyn fod wedi cymryd blyneddau i'w roi ar waith cyn COVID ([McKinsey & company](#), 2020).

Mae hyn wedi newid ein ffyrdd o weithio a'r galluoedd digidol cysylltiedig sydd eu hangen arnom mewn ffordd ddigynsail, ond mae'r pandemig hefyd wedi ehangu'r gagendor digidol - 'y bwlch rhwng y bobl sydd â mynediad rhwydd at fuddion technoleg ddigidol a'r rhai sydd ddim' ([Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol](#), 2022).

Wrth i sefydliadau nawr addasu i ffyrdd newydd o weithio ar ôl y pandemig, mae nifer ohonynt yn mabwysiadu dull hybrid parhaol, gyda dros 80% o weithwyr yn awgrymu eu bod yn bwriadu defnyddio'r dull hwn o weithio. Mae angen i sefydliadau gynllunio ar gyfer y tymor hir, a chynnwys eu staff a sefydliadau allanol i ddatblygu sgiliau digidol ac integreiddio mesurau ataliol i leihau'r gagendor digidol. Mae angen i arweinwyr ddatblygu eu hyder a'u chwilfrydedd, a deall strategaethau'r llywodraeth a 'diwydiant', er mwyn datblygu galluoedd digidol sy'n arwain at drawsnewid digidol effeithiol. ([SYG](#), 2022).

Yn achos sefydliadau addysg uwch (SAU), mae hefyd yn ddefnyddiol i ystyried galluoedd digidol uwch a disgwyliadau myfyrwyr ochr yn ochr â rhai'r staff. Mae hyn oherwydd bod profiad y genhedlaeth newydd o fyfyrwyr o'i gymharu â chenedlaethau'r gorffennol wedi bod yn wahanol, ac yn cael ei ddylanwadau gan y defnydd o dechnoleg yn ystod y pandemig a ffocws y llywodraeth ar sgiliau digidol o fewn y cwricwlwm. Mae [Fframwaith Cymhwysedd Digidol](#), Addysg Cymru, Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yn ffynhonnell ddefnyddiol i ddeall y disgwyliadau o'r sgiliau digidol sydd i'w datblygu o fewn ysgolion.

Wrth feddwl am y sgiliau digidol sydd eu hangen ar gyfer gweithio hybrid, mae canolbwyntio ar 'brofiad y gweithiwr' o safbwynt sefydliadol ac unigol yn helpu i sicrhau bod yr ymddygiad a'r sgiliau i ddefnyddio technoleg yn effeithiol yn gallu cael eu hystyried gyda'i gilydd, i adeiladu'r sgiliau digidol sydd eu hangen arnoch chi.

Er mwyn cefnogi gweithio hybrid, mae rhai o'r sgiliau allweddol y bydd angen i chi efallai ystyried eu datblygu yn eich sefydliad wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Tabl 3

Ymddygiad	Sgiliau
Empathi	Offer a systemau
Cyfathrebu	Cydweithio ar-lein
Diogelwch ac ymddiriedaeth seicolegol	Polisiâu a phrosesau
Cydweithio	Llywodraethu Data
Gwytnwch	Diogelwch ar-lein ac all-lein
Tryloywder	Rheoli gwybodaeth
Chwilfrydedd	Ysgrifennu ar gyfer platfformau digidol

Datrys problemau	Hawlfraint
Meithrin tîm	Tegwch, amrywiaeth, hygyrchedd a chynhwysiant
Cynaliadwyedd	Cynaliadwyedd digidol

Mae'n ddefnyddiol i gymhwyso lens digidol i'r ymddygiadau hyn fel ffordd o feddwl am sut ddylai galluoedd digidol edrych i chi fel unigolyn ac yn eich sefydliad yn ei gyfanrwydd. Trwy gydol y cwrs hwn ac yn y pecyn cymorth, byddwn yn archwilio'r sgiliau hyn ymhellach. Fe allai'r [The Skills Toolkit](#) a grëwyd gan y National Careers Service fod yn adnodd ychwanegol defnyddiol.

Gweithgaredd 4 Sgiliau ar gyfer creu cynnwys

 20 muned

Gwylwch y fideo lle mae Sas Amoah, Cynhyrchydd Cyfryngau Digidol yn y Brifysgol Agored, yn siarad am bwysigrwydd sgiliau a chyfrifoldebau digidol.

Video content is not available in this format.



Wrth edrych ar yr ymddygiadau a'r sgiliau yn Nhabl 3 uchod a'r nodiadau y gwnaethoch wrth wyllo'r fideo, pa feysydd ydych chi'n meddwl sydd efallai angen eu datblygu yn eich sefydliad chi?

2 Y gagendor digidol a chynhwysiant

gagendor digidol yw'r bwlch rhwng pobl mewn cymdeithas sydd â mynediad lawn at dechnolegau digidol (megis y rhyngrwyd a chyfrifiaduron) a'r rhai sydd ddim ([Llywodraeth y DU](#), 2020).

Tynnodd y pandemig sylw at y mater o'r gagendor digidol. Yn ystod y cyfnodau o ddysgu plant gartref roedd yna adroddiadau rheolaidd yn y cyfryngau am blant heb fynediad at dechnoleg i allu ymuno â gwersi o bell. Roedd yna hefyd lawer o bobl oedd ddim yn gallu siopa ar-lein oherwydd diffyg mynediad at dechnoleg, galluoedd digidol neu seilwaith gwael - yn aml, diffyg mynediad at y rhyngrwyd.

A lack of digital skills and access can have a huge negative impact on a person's life, leading to poorer health outcomes and a lower life expectancy, increased loneliness and social isolation, less access to jobs and education.

It can mean paying more for essentials, financial exclusion, an increased risk of experiencing poverty. People who are digitally excluded also lack a voice and visibility in the modern world, as government services and democracy increasingly move online.

What's more, it's those already at a disadvantage – through age, education, income, disability, or unemployment – who are most likely to be missing out, further widening the social inequality gap.

[Good Things Foundation](#) (2021)

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant digidol a sgiliau digidol sylfaenol (llyw. cymru, 2020) yn nodi bod:

- 60,000 o ddefnyddwyr rhyngrwyd personol (16 oed neu hŷn) ddim yn gallu arddangos y sgil o ddefnyddio peiriant chwilio
- 730,000 o ddefnyddwyr rhyngrwyd personol ddim yn gallu dangos y sgiliau o reoli gosodiadau preifatrwyd
- 19% o bobl anabl ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol ac felly ystyrir eu bod wedi'u hallgau'n ddigidol
- gan 76% o denantiaid tai cymdeithasol fynediad i'r rhyngrwyd o'i gymharu â 90% o berchen-feddianwyr.

Mae'r [ffeithlun Cynhwysiant digidol a sgiliau digidol sylfaenol yng Nghymru: 2019 i 2020](#), sy'n crynhoi strategaeth [Rhagolwg cynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus](#) yn dangos graddfa'r gagendor digidol yng Nghymru. Er efallai bod rhai o'r niferoedd i weld yn isel, mae'r rhai sydd yn y gagendor digidol yn cynnwys y bobl fwyaf agored i niwed sydd wedi eu cau allan o gynhwysiant sylfaenol mewn cymdeithas neu sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r seilwaith digidol yn gyfyngedig iawn.

Yn y fideo isod, mae cyfranwyr yn rhannu eu barn am gynhwysiant digidol a sut i gau'r gagendor digidol.

Video content is not available in this format.



Gweithgaredd 5 Ymchwilio i'r gagendor digidol a chynhwysiant

 20 muned

Mae ennill dealltwriaeth o'r gagendor digidol a ffyrdd o gau'r gagendor o fewn eich sefydliad a'r gymuned leol yn hanfodol. Mae hwn yn faes y gellir ei anghofio amdano wrth feddwl am gynhwysiant, gan fod yna rhagdybiaeth os ydych yn gweithio bod gennych eisoes y sgiliau hanfodol a mynediad at seilwaith. Gan fod mwy o bobl yn gweithio mewn dull hybrid, gallai gofynion ar gyfer cynhwysiant digidol rhai sy'n gweithio o bell gael eu hanwybyddu.

Myfyriwch ar y fideo uchod. Yna gwnewch eich ymchwil eich hun ar y gagendor digidol a chynhwysiant a meddyliwch am y cwestiynau canlynol.

- A ydych yn gyfarwydd â'r heriau sy'n cael eu codi mewn perthynas â'ch amgylchiadau personol eich hun?
- Beth ydych yn teimlo y dylai sefydliadau ganolbwyntio arnynt, a sut y gallent wneud hyn?

Efallai yr hoffech ddefnyddio rhai o'r adnoddau isod i helpu gyda'ch ymchwil.

[Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus \(llyw.cymru\)](#)

[The digital divide \(Good Things Foundation\)](#)

[Cymunedau Digidol Cymru \(llyw.cymru\)](#)

[Addysg gynhwysol: deall yr hyn a olygwn \(Cymru\)](#)

Provide your answer...

2.1 Fframwaith ar gyfer adeiladu galluoedd digidol

Mae nifer o sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach wedi mabwysiadu fframwaith galluoedd digidol Jisc (Jisc digital capabilities framework), sy'n nodi'r sgiliau digidol hanfodol y dylai pob oedolyn feddu arnynt yng nghyd-destun y gweithle. Yn ogystal, mae'n cynnig ffordd i fynegi a deall galluoedd digidol mewn lleoliad AU/AB. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar:

- Ar **lefel unigol** rydym yn diffinio galluoedd digidol fel y rhai sy'n galluogi rhywun i fyw, dysgu a gweithio mewn cymdeithas ddigidol.
- Ar **lefel sefydliad** mae angen i ni edrych y tu hwnt i alluoedd unigolion ac ystyried i ba raddau mae diwylliant a seilwaith sefydliad yn galluogi ac yn ysgogi arferion digidol..

([Jisc](#), n.d).

Mae'r fframwaith yn diffinio'r rhain fel a ganlyn.

Tabl 4

Chwe elfen y fframwaith galluoedd digidol unigol yw:	Chwe elfen y fframwaith galluoedd digidol sefydliadol yw:
• Hyfedredd a Chynhyrchiant Digidol (sgiliau gweithredol) • Gwybodaeth, data a llythrennedd yn y cyfryngau (defnydd beirniadol) • Creu, datrys problemau ac arloesi (cynhyrchu creadigol) • Cyfathrebu, cydweithio a chyfranogiad (cyfranogiad) • Dysgu a datblygu digidol (datblygu) • Hunaniaeth a lles digidol (hunan-wir-eddu)	• Diwylliant digidol sefydliadol • Cynnwys a gwybodaeth • Ymchwil ac arloesi • Cyfathrebu • Dysgu, addysgu ac asesu • Seilwaith TGCh

Yn y fideo isod, mae Dr Becki Vickerstaff, Uwch Ymgynghorydd Addysg Uwch yn Jisc, yn egluro fframwaith galluoedd digidol Jisc.

Video content is not available in this format.



Wrth feddwl am y fframwaith galluoedd digidol, mae'n bwysig diffinio'r canlynol er mwyn sicrhau eich bod yn deall y sgiliau digidol a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol gyd-destunau o fewn eich SAU – nid yw un ateb yn addas i bawb!

1. **Pobl:** Y grŵp o bobl sydd angen y sgiliau
2. **Lleoedd:** Y cyd-destun y mae angen iddynt ddefnyddio'r sgiliau
3. **Technoleg:** Yr offer a'r systemau y maent angen y sgiliau i'w defnyddio
4. **Cyfnod:** Y ffrâm amser y mae'r sgiliau hyn yn berthnasol ynddi ([Orlik](#), 2018).

Gweithgaredd 6 Fframwaith Jisc: Pa mor hyderus yn ddigidol ydych chi?

 20 muned

Ymchwiliwch i'r fframwaith galluoedd digidol Jisc yn fwy manwl. Ystyriwch yr hyn mae'n ei olygu i chi fel unigolyn, a pha mor hyderus a alluog yn ddigidol ydych chi'n teimlo.

[Jisc Digital Capabilities Framework](#)

Efallai yr hoffech ddefnyddio un o'r adnoddau canlynol i'ch helpu i asesu eich gallu digidol eich hun:

- Os yw eich SAU yn aelod o Jisc efallai y bydd gennych fynediad at y [Jisc Discovery Tool](#) sef adnodd hunanasesu i'ch helpu i ddeall a datblygu eich galluoedd digidol.
- Os nad yw eich sefydliad yn aelod efallai yr hoffech ddefnyddio [The Digital Competence Wheel](#).

Ysgrifennwch grynodeb o ba mor hyderus a galluog ydych chi'n ddigidol a nodi'r meysydd yr hoffech eu datblygu. Meddyliwch am ba sgiliau ac ymddygiad digidol sy'n bwysig yn eich bywyd personol ac yn eich rôl o fewn sefydliad. Os ydych yn

gweithio mewn SAU ystyriwch hefyd pa sgiliau ac adnoddau digidol rydych chi'n eu defnyddio, er mwyn gweithredu'n effeithiol fel sefydliad, a'r sgiliau i sicrhau'r canlyniadau gorau i'ch myfyrwyr.

Discussion

O fewn y Brifysgol Agored mae'r dulliau canlynol wedi'u cymryd i osod galluedd digidol Jisc yng nghyd-destun y Brifysgol Agored. Mae arbenigwyr pwnc o ar draws y Brifysgol Agored wedi cydweithio i ddatblygu dull i ddatblygu a chefnogi galluedd digidol, trwy ganllawiau, hyfforddiant, cefnogaeth a phrosesau.

Tabl 5

Gallu	Mae hyn yn golygu ein bod yn...
Defnyddio technoleg (Hyfedredd TGCh)	defnyddio adnoddau, dyfeisiau, cymwysiadau, meddalwedd a gwasanaethau seiliedig ar TGCh yn hyderus, defnyddio'r adnodd cywir ar gyfer y dasg (hyfedredd TGCh)
Cyfathrebu, cydweithio a chyfranogiad digidol	- cyfathrebu'n effeithiol, yn briodol ac yn barchus mewn mannau digidol (cyfathrebu digidol) - cydweithio'n effeithiol mewn timau digidol; rydym yn deall nodweddion gwahanol offer digidol ar gyfer cydweithio, ac yn deall yr ystod o normau diwylliannol a chymdeithasol ar gyfer cydweithio (cydweithio digidol) - cymryd rhan mewn, hwyluso ac adeiladu rhwydweithiau digidol; rydym yn ymddwyn yn ddiogel ac yn foesegol mewn amgylcheddau rhwydweithiol (cyfranogiad digidol)
Creu digidol, datrys problemau ac arloesi	- gwybod sut i greu a dylunio deunyddiau digidol newydd e.e. sain, tudalennau gwe (creu digidol) - gwybod sut i ddefnyddio tystiolaeth ddigidol i ddatrys problemau; rydym yn casglu ac yn coladu tystiolaeth newydd ac yn ei rhannu, ac yn gwerthuso ei hansawdd (ymchwil digidol a datrys problemau) - mabwysiadu a datblygu arferion digidol newydd mewn gwahanol leoliadau (arloesi digidol)

Gwybodaeth, data a llythrennedd cyfryngau	• gwybod sut i ddod o hyd i, gwerthuso, rheoli, curadu, trefnu a rhannu gwybodaeth ddigidol yn foesebol (llythrennedd digidol) • defnyddio data i lywio ein penderfyniadau: rydym yn ei reoli, ei goladu, ei gyrchu a'i ddefnyddio, rydym yn ei ddehongli, ac yn gwybod sut i'w gadw'n ddiogel (llythrennedd data) • gwybod sut i dderbyn, gwerthuso ac ymateb i negeseuon mewn ystod o gyfryngau (testun, graffeg, fideo, animeiddio, sain) – a'i churadu, ei hail-olygu a'i hailddefnyddio, gan gydnabod ei llunwyr (llythrennedd cyfryngau)
Dysgu ac addysgu digidol (dysgu a datblygu digidol)	• cymryd rhan mewn ac elwa o gyfleoedd dysgu digidol (dysgu digidol) • rydym yn cefnogi ac yn datblygu pobl eraill i addysgu mewn mannau digidol (addysgu digidol)
Hunaniaeth ddigidol, llesiant a chynaliadwyedd	• datblygu hunaniaeth ddigidol gadarnhaol, rheoli ein henw da digidol (rheoli hunaniaeth ddigidol) • gofalu am iechyd personol, diogelwch, perthnasoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith mewn lleoliadau digidol, a gweithredu'n ddiogel ac yn gyfrifol mewn amgylcheddau digidol (llesiant digidol) • ystyriwch sut allwn ni weithio mewn ffordd fwy cynaliadwy i gynorthwyo'r sefydliad i gwrdd â'i dargedau sero net. (Cynaliadwyedd digidol)

Sylwch: Mae'r Brifysgol Agored wedi cynnwys cynaliadwyedd digidol fel gallu ychwanegol, sydd ddim yn rhan o'r fframwaith Jisc.

Defnyddio'r fframwaith Jisc

Yn y fideo isod, mae Becki Vickerstaff yn crynhoi beth yw'r fframwaith, yna mae cyfranwyr yn trafod sut mae wedi cael ei ddefnyddio yn eu sefydliadau hyd yn hyn a meysydd i'w hystyried ar gyfer y dyfodol.

Video content is not available in this format.



Mae llawer o sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn gweithio gyda Jisc a sefydliadau eraill i ddatblygu adnoddau er mwyn helpu i gryfhau galluoedd digidol. Yn y fideo isod, mae Becki Vickerstaff yn egluro sut mae fframwaith Jisc wedi'i ddefnyddio i greu ardaloedd adnoddau digidol er mwyn helpu i gryfhau galluoedd digidol staff a myfyrwyr.

Video content is not available in this format.



Gweithgaredd 7 Archwilio'r CanolfanDigidol

 10 muned

Cydweithiodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda Jisc i greu'r CanolfanDigidol, eu siop un stop ar gyfer anghenion sgiliau digidol..

Yn y fideo isod mae Sarah Jones, Pennaeth Gwasanaeth Academaidd, Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn trafod sut y gellir defnyddio'r adnodd hwn a meysydd i'w hystyried.

Video content is not available in this format.



Rhowch rywfaint o amser i archwilio'r [CanolfanDigidol](#). Efallai yr hoffech chi ddarllen astudiaeth achos Jisc am y prosiect hwn hefyd:

[University of Wales Trinity St David, Building digital capability \(jisc.ac.uk\)](#).

Ystyried sut y gallech fynd ati i ddatblygu adnoddau i wella galluoedd digidol yn eich sefydliad chi.

3 Sgiliau digidol bob dydd

Meddylwch am y sgiliau digidol rydych chi'n eu defnyddio mewn bywyd bob dydd o'r adeg y byddwch chi'n codi i'r amser rydych chi'n mynd i'r gwely, y tu allan i'ch amgylchedd gwaith a'r gefnogaeth a gawsoch i ddefnyddio'r dechnoleg dan sylw.

Mae'n debygol eich bod wedi gweithio allan sut i ddefnyddio darn o dechnoleg neu feddalwedd eich hun neu wedi gofyn i bartner/ffrind/plentyn ddweud wrthyh sut i wneud rhywbeth. Meddylwch am eich bywyd digidol, beth ydych chi'n ymgysylltu'n weithredol ag ef yn ddigidol oherwydd ei fod o fudd i chi?

Gweithgaredd 8 Pa weithgareddau yn eich bywyd digidol sy'n dibynnu ar dechnoleg?


 10 muned

Lluniwch fap meddwl o'ch bywyd digidol: rhowch dechnoleg yn y canol, yna amgylchynwch ef ag enghreifftiau o'r ffyrdd rydych chi'n defnyddio technoleg mewn bywyd bob dydd. Pa sgiliau digidol ydych chi eu hangen mewn perthynas â'r rhain? Er enghraifft, archebu siopa ar-lein, defnyddio'r sat nav yn eich car neu osod ffôn clyfar newydd yn barod i'w ddefnyddio. Rhestrwch eich syniadau yn y blwch isod.

Provide your answer...

Answer

Mae'r ddelwedd isod yn dangos dim ond rhai o'r ffyrdd y mae technoleg yn cael ei ddefnyddio ym mron bob agwedd ar ein bywydau.



Ffigwr 2 Rhai o'r ffyrdd y mae technoleg yn cael ei ddefnyddio

Gweithgaredd 9 Deall sgiliau ar gyfer y gweithle

10 muned

Edrychwch ar yr erthyglau isod a meddyliwch am sut rydych chi'n defnyddio'r technolegau hyn a'r sgiliau digidol sydd gennych chi mewn perthynas â nhw. Wrth i chi wneud hynny, ystyriwch eich agwedd tuag at ddiogelwch ar-lein a llesiant digidol personol.

- Pa rai o'r sgiliau hyn rydych yn eu defnyddio yn y gweithle hefyd?
- Pam ydych yn eu defnyddio nhw?
- Sut mae hyn yn amrywio yn y gweithle a'ch bywyd personol?

Rhestrwch eich atebion yn y blwch isod.

[Top 11 Essential Uses of Technology in Everyday Life \(javaassignmenthelp.com\)](https://www.javaassignmenthelp.com/top-11-essential-uses-of-technology-in-everyday-life/)

[The 7 Main Ways Technology Impacts Your Daily Life – Tech.co](https://tech.co/the-7-main-ways-technology-impacts-your-daily-life/)

[20 internet safety tips and checklist to help families stay safer online | Norton](https://norton.com/20-internet-safety-tips-and-checklist-to-help-families-stay-safer-online/)

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â diogelwch ar-lein, a llesiant digidol personol yn ddiweddarach, ond mae'n ddefnyddiol i ddechrau meddwl am hyn wrth i chi weithio trwy bob adran.

Provide your answer...

4 Datblygu eich hyder digidol a'ch chwilfrydedd

Mae SAU yn ôl eu natur yn annog dysgu parhaus a bod yn chwilfrydig. Maent yn tueddu i gael agweddau ffurfiol ac anffurfiol tuag at hyn, yn aml gyda chyfleoedd i 'chwarae'.

Nid yw meithrin galluoedd digidol yn ymwneud yn unig â chysiau hyfforddi ffurfiol ar sut i ddefnyddio'r offer, ond mae hefyd yn cynnwys dysgu anffurfiol gan eraill, chwarae gydag offer digidol a bod yn gyfforddus â dysgu o fethiant. Mae datblygu diwylliant digidol yn gyntaf, lle mae arweinwyr sefydliadol yn arwain trwy esiampl, trwy ganolbwyntio ar bobl, cofleidio technoleg a chael gweledigaeth gyffredin sy'n cael ei chyfleu, yn annog hyder a chwilfrydedd digidol ([Slack](#), 2022).

Gweithgaredd 10 Pa mor hyderus yn ddigidol ydych chi?

 5 muned

Reflect on the questions below, and then place your vote in the poll.

Rwy'n hapus i roi cynnig ar bethau newydd.

Interactive content is not available in this format.



Byddaf yn canfod atebion.

Interactive content is not available in this format.



Does dim ots gen i ddim gwybod sut i wneud rhywbeth.

Interactive content is not available in this format.



Gan ddibynnu ar ba mor gyfforddus ydych chi gydag amwysedd a'ch hyder eich hun, bydd datblygu eich galluoedd digidol (a thrawsnewid) naill ai'n gyfle i gael hwyl a gwrthio terfynau'r hyn y gellir ei wneud neu gall fod yn ddryslyd ac yn frawychus. Gall unigolion poeni eu bod am dorri rhywbeth, gwneud rhywbeth o'i le, neu golli rhywbeth. Nid yw'r olaf yn debygol iawn y dyddiau hyn gan fod y rhan fwyaf o sefydliadau'n defnyddio gwasanaethau cwmwl. Cyn belled â'ch bod yn cadw'ch gwaith yn y lle cywir (er enghraifft, nid ar fwrdd gwaith eich cyfrifiadur) mae'r rhan fwyaf o bethau yn adferadwy a gallwch gael mynediad i fersiynau blaenorol fel arfer.

O bryd i'w gilydd mae pethau'n mynd o chwith ac nid oes posib eu datrys ac fel arfer nid eich bai chi yw hyn! Dyma fy ngliniadur a roddodd y gorau i weithio o ganlyniad i fethiant caledwedd cyfan. Fodd bynnag, ni chollais dim o fy ngwaith na ffeiliau gan ei fod i gyd ar y

gweinyddwyr - yn y cwmwl - ac yn hygyrch pan wnes i fewngofnodi ar fy ngliniadur newydd.



Ffigwr 3 Ffotograff o liniadur wedi torri

Mae dysgu gan eraill yn rhan hanfodol o ddatblygu eich galluoedd digidol eich hun. Yn aml, gall rhywun eich helpu i ddefnyddio offeryn digidol, gan roi cipolwg i chi ar y ffordd rydych chi'n mynd i'r afael â thasg neu eich annog i wneud eich ymchwil eich hun i wella eich dealltwriaeth.

Os ydych chi'n ail-ddychmygu cynhyrchion, prosesau a systemau efallai nad oes gennych chi unrhyw syniad beth sy'n mynd i fod yn llwyddiannus a beth na fydd yn llwyddiannus. Bydd yn rhaid i chi ddysgu bod â'r hyder i ddatblygu meddylfryd a disgwyliadau'r rhanddeiliaid wrth fod yn gyfforddus â stopio neu addasu datblygiadau. Efallai bydd angen i chi dynnu ar y data sydd ar gael a chael mewnbwn gan arbenigwyr pwnc i wneud penderfyniadau.

Mae mwy o arweinwyr yn cymryd rhan mewn 'mentora dwyochrog' – sydd fel arfer yn cynnwys gweithiwr iau yn mentora rhywun uwch na nhw, ond gall y rhai yn yr un rolau hefyd elwa o'r dull hwn i ystyried gwahanol ddulliau o gyflawni tasgau digidol a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Mae'n bwysig cydnabod bod galluoedd a sgiliau unigolion yn mynd i amrywio. Er enghraifft, peidiwch â chymryd yn ganiataol bod pobl iau yn arbenigwyr ar ddefnyddio pob math o dechnoleg: efallai eu bod yn gymwys i ddefnyddio technoleg symudol, ond nid offer ar gyfer gwaith e.e., Microsoft Office 365 neu Google Drive, neu fod ganddynt y profiad ymddygiadol ar gyfer gweithio ar-lein yn y gweithle.

Meddu ar yr hyder i ofyn cwestiynau a rhannu eich profiadau eich hun o fewn eich tîm neu'r rhai sydd â sgiliau arbenigol, i greu cyfleoedd i feithrin cydweithrediad a hyder o fewn timau a'r sefydliad.

Wrth i chi ddod yn fwy galluog yn ddigidol a hyderus rhannwch eich gwybodaeth a chefnogi eraill. Dysgu i wrando a gweld beth sy'n digwydd mewn amgylcheddau digidol. Os ydych chi'n chwilfrydig a ddim yn ofni cyfaddef nad ydych chi'n gwybod sut i wneud rhywbeth, mae'r rhan fwyaf o bobl yn fwy na pharod i ddangos i chi. Mae hyn nid yn unig yn datblygu eich sgiliau ond yn meithrin diwylliant o rannu ac ymddiriedaeth gyda'r rhai rydych yn gweithio gyda nhw, ac yn annog y rhai a allai fod mewn rôl iau neu'n newydd i'r sefydliad i fod yn fwy hyderus wrth gyfrannu at drafodaethau.

4.1 Astudiaeth achos: meithrin diwylliant digidol iach

Mae'r dull a ddefnyddiwyd gan un o dimau cynhyrchu cyrsiau byr y Brifysgol Agored yn enghraifft o sut i feithrin diwylliant digidol iach. Waeth beth fo'i rôl, mae pob aelod yn dod â set sgiliau digidol gwahanol sydd yr un mor bwysig i gyflwyno'r cynnyrch. Mae lefel uchel o ymddiriedaeth, gofyn cwestiynau, dangos i eraill yn y tîm sut i fynd i'r afael â phob tasg ac ymddygiad rhagweithiol yn ffordd sylfaenol o weithio, er mwyn sicrhau y gellir datblygu

cynhyrchion yn gyflym. Nid oes yna byth rhagdybiaeth bod rhywun yn gwybod sut i wneud rhywbeth neu feddylfryd o 'nid fy ngwaith i ydy hynna'. Mae pawb yn hyblyg ac yn helpu pan fo angen.

Astudiaeth achos: meithrin diwylliant iach?

Mae'r tabl isod yn ddetholiad o ganllawiau cynhyrchu ar gyfer awduron cwrs nad ydynt yn aml wedi defnyddio'r plattform ar-lein yr ydym yn ei ddefnyddio. Mae'r ffocws i raddau helaeth ar y sgiliau sydd ganddynt eisoes i fagu hyder, gosod disgwyliadau a chreu amgylchedd diogel, agored i adeiladu ymddiriedaeth yn gyflym. Mae pobl yn cael eu hannog i ofyn am gymorth, tra'n gallu cael mynediad at y canllawiau a'r offer angenrheidiol. Y nod yw sicrhau, pan fydd gwaith yn dechrau ar y plattform ar-lein, bod pobl wedi datblygu'r gallu i ddeall sut i gyflwyno'r cwrs gorau posibl.

Tabl 6

Dod i adnabod y plattform

Cofrestrwch i wneud cwrs byr ac edrych o gwmpas i weld sut mae'r plattform yn gweithio.

Dweud straeon a mynd â'r dysgwr ar daith

Beth yw'r prif beth rydych eisiau i'r dysgwr ddysgu a siarad amdano?

Gofynnwch gwestiwn mawr ac yn gwybod pwy yw eich dysgwr

Bydd hyn yn eich helpu i lunio'r cwrs i'r cyfeiriad cywir.

Cynlluniwch eich cyfryngau'n gynnar

Cynlluniwch beth ydych eisiau ei ddefnyddio o ran fideos, sain, graffeg ac adnoddau rhyngweithiol er mwyn caniatáu amser i'w cynhyrchu.

Meddyliwch yn fawr

Rydym yn hoffi syniadau mawr, a lle bo'n bosib byddwn yn dod o hyd i ffordd i'w gwireddu.

Ysgrifennu'n sgysiol

Ysgrifennwch fel eich bod yn siarad yn uniongyrchol â rhywun yn hytrach na ysgrifennu papur academiaidd neu werslyfr.

Canolbwyntio ar sgiliau

Ysgrifennwch eich cynnwys o gwmpas sgiliau fydd yn gwella cyflogadwyedd dysgwyr.

Tynnu sylw at gynnwys trydydd parti'n gynnar

Nodwch unrhyw gynnwys trydydd parti yr hoffech ei ddefnyddio cyn gynted â phosibl. Peidiwch â chymryd yn ganiataol os yw'n rhan o gwrs y Brifysgol Agored y gallwn ei ddefnyddio heb ganiatâd.

Amrywio cynnwys a mathau o gynnwys

Defnyddiwch y gwahanol fathau o gamau a'r opsiynau cyfryngau i roi amrywiaeth i'r dysgwyr a chadw eu sylw.

Gofynnwch am gymorth

Mae'r tîm yma i'ch helpu chi, nid oes yna gwestiynau gwirion.

Byddwch yn barod i glywed Na, ond byddwn yn gweithio gyda chi i ganfod datrysiaid.

Nid oes gan y plattform yr un swyddogaeth neu ddull gweithredu â'n plattform ni. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi os ydym yn teimlo nad yw rhywbeth yn iawn, neu ddim yn bosib. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n dweud 'Na' lot, ond byddwn yn ceisio dod o hyd i ffordd o'i chwmpas.

Rydym hefyd yn llym iawn o ran nifer geiriau!

Ein nod yw sicrhau eich bod yn mwynhau ac yn cyflwyno'r cwrs gorau posib.

4.2 Pa mor chwilfrydig yn ddigidol ydych chi?

Mae'r gweithgareddau canlynol yn rhoi cyfle i chi fod yn chwilfrydig gydag amrywiaeth o offer ac i feddwl am sut rydych chi'n ymdrin â thasgau digidol. Nid oes unrhyw gyfarwyddiadau manwl, mae hynny'n fwriadol.

Gweithgaredd 11 Archwilio Freerice

 10 muned

Yr unig gyfarwyddyd ar gyfer y gweithgaredd hwn yw mynd i safle Freerice a'i archwilio. Nid oes angen i chi greu cyfrif, oni bai eich bod yn dymuno gwneud hynny [Freerice](#)

Gweithgaredd 12 Tynnu llun o berson

 15 muned

Agorwch ddogfen prosesu geiriau (e.e., Microsoft Word, Google Docs, Apple Pages), tynnwch lun o berson a chadwch y ddogfen.

Gweithgaredd 13 Sut oeddech chi'n teimlo?

 10 muned

Sut oeddech chi'n teimlo?

1. Do'n i ddim yn siŵr sut i wneud hyn, a wnes i mo'i wneud
2. Do'n i ddim yn siŵr sut i wneud hyn, felly gwnes i chwilio/gofyn am help
3. Do'n i ddim yn siŵr beth roedd angen i mi ei wneud, ond gwnes i chwarae nes i mi weithio hynny allan
4. lawn, gwnes i weithio allan beth roedd angen i mi ei wneud
5. lawn, ro'n i'n gwybod beth roedd angen i mi ei wneud

Cofnodwch eich meddyliau ynglŷn â gwneud y gweithgareddau hyn a gwnewch nodiadau yn y blwch isod.

Provide your answer...

Discussion

Efallai eich bod wedi bod yn amheus iawn o wneud y gweithgareddau hyn heb fawr o gyfarwyddiadau, a hyd yn oed yn anghyfforddus. Neu efallai eich bod yn barod iawn i archwilio. Pa gymorth oedd ei angen arnoch chi? A wnaethoch chi edrych am arweiniad eich hun? Mae gan bob un ohonom lefelau gwahanol o chwilfryddedd a hyder wrth wynebu tasgau digidol – darllenwch fwy am ein hymatebion, yn yr adran nesaf.

Datblygu eich hyder

Cynlluniwyd Gweithgareddau 11 a 12 i'ch caniatáu i chwarae - nid oedd yna ffordd gywir nac anghywir o wneud y gweithgareddau.

Mae'r wefan Freerice yn ymgorffori chwarae, dysgu a chynaliadwyedd. Cynlluniwyd y safle i fod yn hawdd iawn i'w ddefnyddio, gymaint felly nad ydynt wedi darparu unrhyw ganllawiau ar sut i'w ddefnyddio. Os gwnaethoch gymryd yr amser i archwilio'r ddewislen, byddwch wedi gweld y gallech newid y lefel anhawster, gweld gwybodaeth am heriau a dewis gwahanol fathau o gwestiynau.

Roedd y gêm a chwaraeais i yn ymwneud ag ystyr geiriau: datblygodd hyn ynddo'i hun fy sgiliau ar ddefnyddio geiriau gwahanol i ddisgrifio rhywbeth, pe bawn i eisio cymryd cam ymhellach, gallwn herio fy hun i ddefnyddio'r ystyr amgen y tro nesaf yr oeddwn yn cyfathrebu rhywbeth sy'n gysylltiedig ag ef.

Ffactor ysgogol i annog ymgysylltiad â'r gêm yw ei bod yn cefnogi'r

[United Nations World Food Programme \(WFP\) a'r United Nations Sustainable Development Goals \(UN SDG\)](#) a gallai cymryd rhan yn y diben ehangach hwn helpu i roi hwb i'ch llesiant chi.

Os gwnaethoch gofrestru i gael cyfrif gallwch greu grŵp a gwahodd aelodau o'ch tîm neu sefydliad i ymuno. Neu gallwch ymuno â'r grŵp Sgiliau Digidol, a defnyddio'r offeryn hwn fel rhan o'ch pecyn cymorth lles, i gael seibiant, wrth barhau i gyfrannu at yr UN SDG.

I wneud hyn, ar ôl i chi gofrestru, ewch i'r ddewislen, dewiswch grwpiau ac yna teipiwch y cod canlynol i ymuno â grŵp sydd eisoes yn bodoli: **!Warning! Open Sans not supportedR5V4ABYR**

Freerice is an educational trivia game that helps you get smarter while making a difference for people around the world. Every question you answer correctly raises 10 grains of rice for the [World Food Programme \(WFP\)](#) to support its work saving and changing lives around the world.

Ffynhonnell:: United Nations World Food Programme (dim dyddiad)

Gallai dynnu llun o berson fod wedi bod yn fwy heriol, gan fod yn rhaid i chi benderfynu pa declyn i'w ddefnyddio, ac efallai ei bod yn dasg anghyfarwydd i'w chwblhau, hyd yn oed os ydych yn defnyddio'r teclyn 'prosesu geiriau', efallai nad yw tynnu llun rhywbeth ynddo yn allu digidol eich bod wedi bod angen ei ddatblygu. Gall mewnosod siapiau a blychau testun fod yn ddefnyddiol os ydych am ychwanegu cynrychiolaeth weledol o wybodaeth a data, felly mae hwn yn allu digidol sy'n werth ei ddatblygu.

Rhoddodd gweithgareddau 11 a 12 gyfle i chi chwarae, profi eich hyder ac efallai dysgu sgil digidol newydd. Rhoi cynnig ar bethau yn aml yw'r ffordd orau o ddeall sut rydych chi'n dysgu a datblygu'r gallu i chwilio am gymorth a chefnogaeth, i'ch galluogi i ddod o hyd i atebion yn fwy effeithlon, pan efallai na fyddwch yn gallu estyn allan at eraill am gymorth.

5 Deall eich cyfrifoldebau


Wrth weithio'n ddigidol mae angen i chi ddeall eich cyfrifoldebau a'ch ymddygiad yn unol â gofynion a disgwyliadau eich sefydliad. Fel y gwelsoch o'r rhestr yn gynharach yn y cwrs hwn mae wedi dod yn bwysicach cael y ddealltwriaeth hon wrth weithio'n hybrid. Mae sefydliadau bellach yn fwy dibynnol ar ymddiried yn y rhai sy'n gweithio o bell i barchu eu gofynion ac i gael y gallu, yr offer a'r amgylchedd i wneud hynny.

Bydd gan y rhan fwyaf o SAUau ganllawiau a pholisïau i sicrhau bod eu staff yn deall y gofynion ar gyfer diogelwch, llywodraethu digidol, hygyrchedd, cynhwysiant ac eiddo deallusol. Fodd bynnag, mae gweithio'n gyfrifol yn fwy pellgyrhaeddol.

Yn dibynnu ar eich rôl, a'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y gallwch eu darparu, yn aml mae yna gyfres o ganllawiau ffurfiol ac anffurfiol y mae angen i chi eu hystyried hefyd. Gall y rhain amrywio o ganllawiau brand sefydliadol, y defnydd o systemau ac offer, ac yn bwysig iawn, eich ymddygiad digidol, o ran sut rydych chi'n rheoli'ch dyfeisiau a sut rydych chi'n cyfathrebu ag eraill.

5.1 Llesiant digidol a diogelwch


Er bod llawer o sefydliadau'n edrych ar lesiant digidol a diogelwch fel endidau ar wahân, mae'n ddefnyddiol eu hystyried gyda'i gilydd, gan fod yna gorgyffwrdd: mae diogelwch wedi'i gysylltu'n gynhenid â llesiant a diogelwch. Os nad ydych yn teimlo'n 'ddiogel' oherwydd nad yw eich diogelwch digidol yn ddigonol, gall hynny effeithio ar eich llesiant (Gweler Ffigwr 4).



Ffigwr 4 Bod yn ddiogel yn ddigidol

Mewn byd sy'n cael ei yrru'n fwy digidol, mae ein hanghenion a'n dibyniaeth ar dechnoleg wedi golygu bod ein bywyd digidol yn haeddu ystyriaeth fel angen sylfaenol. Mae Hierarchaeth Anghenion Maslow, a addaswyd i ystyried ein bywyd digidol, yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer ystyried anghenion sefydliadol ac unigol. Yn yr un modd, mae saith nod llesiant a pum ffordd o weithio

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a'r model [Jisc Digital Wellbeing](#) yn mabwysiadu dull cyfannol o feithrin galluedd a sgiliau digidol, gyda phwyslais ar lesiant.



Ffigwr 5 Maslow 2.0: anghenion digidol

Source: [Chando](#) (2019)

Yn y cwrs hwn, nid ydym yn rhoi sylw manwl i lesiant digidol, ond mae cwrs [Gweithio hybrid: llesiant a chynhwysiant](#) yn cynnwys mwy o wybodaeth am lesiant a diogelwch digidol. Mae model Jisc [digital wellbeing for individuals](#) yn adnodd defnyddiol ar y pwnc hwn hefyd.

Gweithgaredd 14 Beth yw eich cyfrifoldebau diogelwch digidol yn y gweithle?

20 muned

Bydd eich cyfrifoldebau am ddiogelwch digidol o fewn sefydliad yn amrywio yn ôl eich rôl a'r polisïau, prosesau a chanllawiau o fewn eich sefydliad. Cymerwch amser i archwilio'r rhain o fewn eich sefydliad, ystyriwch yr hyn y mae'n ofynnol i chi ei wneud, a'r hyn yr ydych yn ei wneud mewn gwirionedd. Efallai yr hoffech restru'r cyfrifoldebau allweddol sydd gennych yn y blwch testun rhydd isod.

Provide your answer...

Answer

Mae'n bwysig cofio y gall llesiant digidol a diogelwch gyfeirio at amgylcheddau ar-lein ac all-lein. Mae Tabl 7 yn cyflwyno rhai awgrymiadau syml ar y pwnc hwn:

Tabl 7

Ar-lein	All-lein
A oes gennych chi allwedd adfer Bitlocker ar gyfer eich dyfeisiau?	Ble ydych yn diogelu eich dyfeisiau pan nad ydych yn eu defnyddio?
Pa mor ddiogel yw eich cyfrinair? A ydych yn ei newid yn rheolaidd? Gallwch ei wirio ar: How Secure Is My Password? A yw eich cyfrinair yn cydymffurfio â chanllawiau eich sefydliad?	A ydych yn cloi eich cyfrifiadur pan fyddwch yn gadael eich ardal weithio? A ydych yn gwybod pwy i gysylltu â nhw os nad ydych yn gallu cael mynediad at eich systemau neu fynd ar-lein?
A yw eich sefydliad yn defnyddio Dilysu Amlffactor (Multi-Factor Authentication / MFA) ac a ydych wedi ei osod yn gywir?	Pwy all weld eich sgrin pan fyddwch yn gweithio?
A ydych yn ystyried sut ydych yn rhannu gwybodaeth yn fewnol ac allanol? Pa mor sensitif yw'r wybodaeth?	Pa faterion gwaith ydych chi'n eu trafod gyda phobl eraill?
A ydych yn defnyddio cyfrineiriau ar ddogfennau sensitif pan fo angen?	Sut ydych chi'n storio copïau caled o ddogfennau?
A ydych yn gwybod beth i'w wneud gyda negeseuon e-bost sbam?	Pwy ydych chi'n caniatáu i ddefnyddio'ch dyfeisiau?

Mae gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol awgrymiadau pellach i'ch helpu i [aros yn ddiogel ar-lein](#) ac mae'r wefan Learn My Way yn cynnig adnodd [introduction to Online Safety](#) y gallech ei archwilio.


5.2 Llywodraethu digidol a diogelwch gwybodaeth

Mae gan rhai sefydliadau adrannau ar wahân sy'n arwain ar lywodraethu digidol a gweithgarwch diogelwch gwybodaeth. Mae'r adrannau hyn fel arfer yn sicrhau bod cyfrifoldebau cyfreithiol, safonau proffesiynol a mewnol, prosesau a strategaethau yn eu lle. Mae hyn yn galluogi sefydliadau ac unigolion i ddatblygu'r ymddygiadau sy'n sicrhau dull cyson o weithredu mewn amgylchedd digidol.

Mae llywodraethu digidol a diogelwch gwybodaeth yn gallu cynnwys meysydd megis:

- GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data / General Data Protection Regulations)
- diogelwch gwybodaeth
- rheoli data, gwybodaeth a gwybodaeth ddigidol
- eiddo deallusol a hawlfraint
- hygyrchedd a chynhwysiant
- brandiau digidol
- cyfathrebu a chynnwys.

Mae llawer o sefydliadau yn defnyddio fframwaith rhyngwladol DAMA (Data Management Association) fel dull o lywodraethu data a deall yr hyn sydd angen ei ystyried.



Ffigwr 6 The DAMA-DMBOK data governance wheel

Yn y fideo isod, mae Nicola Askham, hyfforddwr llywodraethu data, yn esbonio'r fframwaith a'r ystyriaethau ar gyfer llywodraethu data da.

Video content is not available in this format.



Gweithgaredd 15 Meddyliwch am yr hyn a ddylai fod yn rhan o fframwaith llywodraethu digidol

 15 muned

Nid yw'r cwrs hwn yn ymdrin yn fanwl â'ch holl gyfrifoldebau, gan y bydd y rhain yn amrywio o sefydliad i sefydliad: rydym yn argymhell eich bod yn treulio rhywfaint o amser yn ystyried pa bolisïau, prosesau a hyfforddiant cydymffurfio y mae'n ofynnol i chi eu gwneud yn eich SAU neu weithle.

Nid oes gan bob sefydliad fframwaith llywodraethu digidol manwl yn ei le. Efallai bod ganddynt fframweithiau ac elfennau strategol o 'weithgaredd digidol'. Mae fframwaith llywodraethu digidol yn wahanol i fframwaith llywodraethu data sy'n canolbwyntio ar reoli data.

Gwylwch y fideo am 'The OCED Digital Government Policy Framework' sy'n rhoi mewnwelediad i'r hyn yr hoffech chi fel sefydliad ei ystyried i gefnogi datblygiad fframwaith llywodraethu digidol.

[OECD Digital Government Policy Framework](#)

Efallai yr hoffech wneud rhywfaint o nodiadau yn y blwch testun rhydd isod.

Provide your answer...

5.3 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Cyfraith diogelu data Ewropeaidd sy'n rhoi mwy o reolaeth i unigolion dros eu gwybodaeth bersonol. I sefydliadau, mae hyn yn golygu sicrhau bod polisïau a phrosesau preifatrwydd

data cadarn, sy'n cyfyngu ar sut y ceir mynediad i ddata personol a'r hyn y gall sefydliad ei wneud â'r data hwnnw.

Mae'n bwysig deall nad yw data a gwybodaeth wedi'u cyfyngu i'r hyn a geir mewn dogfennau, yn hytrach mae'n gynnwys a ddefnyddir mewn unrhyw system, ased neu gyfathrebiad sy'n bodoli'n ddigidol neu'n ffisegol.

Gall data a gwybodaeth fodoli mewn:

- dogfennau, taenlenni, cyflwyniadau
- systemau Cronfa Ddata
- cynnwys ar blatfformau dysgu ar-lein
- ffeiliau fideo neu sain, asedau delwedd
- gwefannau
- negeseuon e-bost
- adroddiadau
- cofnodion staff

Mae GDPR y DU yn cynnwys saith egwyddor allweddol:

Tabl 8

Egwyddor	Gofyniad Erthygl 5(1)
Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder	Bydd data personol yn cael eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas ag unigolion
Cyfyngiad pwrpas	Bydd data personol yn cael eu casglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon ac ni fyddant yn cael eu prosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny; ni ystyrir y bydd prosesu pellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn anghydnaws â'r dibenion gwreiddiol
Lleihau data	Bydd data personol yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y maent yn cael eu prosesu ar eu cyfer
Manwl gywirdeb	Bydd data personol yn gywir a lle bo angen, byddant yn cael eu diweddarau; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol nad ydynt yn gywir, gan ystyried y dibenion y maent yn cael eu prosesu ar eu cyfer, yn cael eu dileu neu eu cywiro heb oedi
Cyfyngiad storio	Ni fydd data personol yn cael eu cadw ar ffurf sy'n galluogi adnabod y sawl sy'n destun y data am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol ar gyfer y dibenion y caiff y data eu prosesu; gellir storio data personol am gyfnodau hirach cyn belled ag y bydd y data personol yn cael eu prosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn amodol ar weithredu'r mesurau technegol a threfniadaethol priodol sy'n ofynnol yn ôl y GDPR er Mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion

Uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)	Bydd data personol yn cael eu prosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol i'r data personol, gan gynnwys eu diogelu rhag prosesu anghyfreithlon neu heb ei awdurdodi a'u diogelu rhag eu colli, eu dinistrio neu eu difrodi yn ddamweiniol, trwy ddefnyddio mesurau technegol neu drefniadaethol priodol
Atebolrwydd	Bydd y rheolwr yn gyfrifol am yr egwyddorion hyn ac yn gallu dangos cydymffurfiaeth â nhw (Erthygl 5(2))

Ffynhonnell: [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)


Sylwch: Er efallai bod gan sefydliad 'rheolydd' enwebedig sy'n goruchwyllo GDPR, mae gan unrhyw un sy'n trin data personol gyfrifoldeb i gadw at y saith Egwyddor fel y'u hamlinellir drwy'r polisïau a phrosesau sefydliadol perthnasol. Yn y rhan fwyaf o SAUau, mae'n ofynnol i chi gwblhau hyfforddiant GDPR yn flynyddol i sicrhau eich bod yn deall eich cyfrifoldebau. Gwiriwch - beth sydd ar waith yn eich sefydliad chi?

Gweithgaredd 16 Meddylwch am y wybodaeth a'r data rydych yn eu trin

 15 muned

Pa mor aml ydych chi'n ystyried GDPR wrth drin gwybodaeth a data? A ydych yn hyderus, pan fyddwch yn gwneud hynny, y byddai eich ymddygiad yn bodloni gofynion polisïau a phrosesau eich sefydliad?

Mae gan lawlyfr ffynhonnell agored GitLab ddull syml i'ch helpu i wneud dewisiadau gwybodus, ac maent wedi creu'r fframwaith 'SAFE' i weithredu fel canllaw, sy'n cynnwys enghreifftiau o beth i'w wneud os rhennir gwybodaeth anniogel a sut maent yn atgyfnerthu SAFE.



5.4 Eiddo deallusol (IP) a hawlfraint

Wrth ystyried sut ydych yn trin gwybodaeth a data, mae angen i chi hefyd feddwl am eiddo deallusol a hawlfraint. Mae'n bwnc eang, ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'ch cyfrifoldebau a deall disgwyliadau eich sefydliad.

Mae eiddo deallusol fel arfer yn cynnwys:

- enwau eich cynhyrchion neu brandiau
- eich dyfeisiadau
- dyluniad neu edrychiad eich cynhyrchion
- pethau rydych yn ysgrifennu, creu neu gynhyrchu.

[Intellectual property and your work: What intellectual property is](#) (gov.uk).

Mae hawlfraint fel arfer yn cynnwys:

- gwaith llenyddol, dramatig, cerddorol ac artistig
- meddalwedd, cynnwys gwe a chronfeydd data
- recordiadau sain a cherddoriaeth
- ffilmiau, rhaglenni teledu a gwe-ddarllediadau
- argraffiadau cyhoeddedig.

Addaswyd o: [Copyright, Designs and Patents Act, 1988](#).

Mae angen ystyried eiddo deallusol a hawlfraint o ddau gyfeiriad.

1. **Defnyddio a rhannu gwybodaeth, cynhyrchion, gwasanaethau a chynnwys eich sefydliad** – eich sefydliad sy'n berchen ar yr eiddo deallusol a'r hawlfraint. Felly, mae angen i chi fod yn ymwybodol o beth allwch chi a beth allwch chi ddim ei rannu yn gyhoeddus. Er enghraifft, efallai na fyddai'n ddoeth rhannu manylion am brosiect arloesi sy'n fasnachol sensitif neu ddetholiad o gwrs y gwnaethoch ei ysgrifennu – efallai nad chi sy'n berchen ar yr hawl i wneud hyn.
2. **Defnyddio deunyddiau pobl eraill - wrth ddefnyddio unrhyw gynnwys 'trydydd parti'** – mae angen i chi wirio'r amodau defnydd wrth ddefnyddio cynnwys sydd ddim yn eiddo i chi na'ch sefydliad. Mae rhai sefydliadau fel NASA yn darparu'r rhain yn glir ar eu gwefan, ond mae eraill yn fwy cymhleth, oherwydd yn aml nid yr 'awdur' yw'r 'perchennog'. Materion cyffredin sy'n codi o gysylltu ag erthyglau ar y we. Er y gallant fod ar gael yn rhwydd i'w cyrchu, mae llawer o sefydliadau'n codi tâl am gysyniad o'r enw 'deepinking' – sef anfon defnyddwyr i dudalen benodol ar wefan, yn hytrach na'r hafan. Un o'r rhesymau dros hyn yw y gall arwain at golli incwm i berchennog y safle.

Gweithgaredd 17 Archwilio eiddo deallusol a hawlfraint ymhellach

 10 muned

Rheol sylfaenol ar gyfer eiddo deallusol a hawlfraint yw os ydych yn ansicr gofynnwch am gyngor a chaniatâd. Gwiriwch pa ganllawiau a gofynion sydd gan eich sefydliad ar waith. Er enghraifft, efallai bod gennych dudalen bwrpasol megis yr un isod gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

[Hwb Hawlfraint | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant](#)


Os yw hwn yn faes sydd gennych ddiddordeb ynddo, efallai yr hoffech gael golwg ar yr adnoddau canlynol.

[Patents, trade marks, copyright and designs](#) (gov.uk)

[Taflen ffeithiau Cyfraith Hawlfraint y DU: The UK Copyright Service](#)

5.5 Beth yw Diogelwch Gwybodaeth?

Mae diogelwch gwybodaeth yn amddiffyn **cyfrinachedd**, **uniodeb** ac **argaeledd** – y cyfeirir atynt yn aml fel y 'Triad CIA' (Confidentiality, Integrity, Availability) – o bob ased, gwybodaeth a system, boed yn ddigidol neu ffisegol.



Ffigwr 8 Preferred IT Group (2019)

Isod mae diffiniad byr o bob elfen o'r triawd (yn seiliedig ar y [National Cyber Security Centre](#), 2021b):

Cyfrinachedd: dim ond personél awdurdodedig mewn perthynas â'u rôl ddylai gael mynediad at wybodaeth, er mwyn sicrhau nad yw wedi'i rhannu na'i chyrchu heb ganiatâd.

Uniodeb: mae angen i wybodaeth a data fod yn gywir, yn gyson ac wedi'i ddefnyddio ar gyfer ei ddiben bwriadedig. Mae hyn yn gofyn am reolaethau anymwrthod a dilysu cryf i atal data rhag cael ei addasu neu ei ddinistrio.

Argaeledd: mae gwybodaeth a data ar gael yn rhwydd ac mae yna fynediad dibynadwy at wybodaeth (a defnydd ohoni).

Prif ffocws diogelwch gwybodaeth yw sicrhau bod sefydliadau ac unigolion yn gweithredu'n ddiogel ac yn tarfu cyn lleied â phosibl ar brosesau gwaith. Mae cyflawni hyn yn golygu anelu at leihau'r risg o ddigwyddiadau diogelwch, sy'n cynnwys dwyn, ymyrryd â neu ddileu gwybodaeth a data. Bydd gan y rhan fwyaf o sefydliadau bolisi diogelwch gwybodaeth sy'n rhoi arweiniad ar ddefnyddio TG ac asedau digidol.

Bygythiadau diogelwch cyffredin

Systemau sydd wedi'u diogelu'n wael – sy'n cynyddu'r risg o ymosodiadau gan drydydd partion neu gamddefnydd, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol gan unigolion o fewn sefydliad.

Ymosodiadau ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac e-bost – lle mae cyfrifon yn cael eu hacio, neu mae e-byst yn twyllo defnyddwyr i gyflawni gweithred sy'n peryglu diogelwch.

Maleiswedd – meddalwedd sy'n amharu ar, yn niweidio neu'n ennill mynediad anawdurdodedig at system gyfrifiadurol.

Maleiswedd ar ddyfeisiau – mae'r dyfeisiau a ddefnyddiwr (e.e. gliniaduron, dyfeisiau llechen a ffonau symudol) yn gallu dod dan fygythiad mewn gwahanol ffyrdd, ac yn aml, nid yw meddalwedd gwrthfeirysol yn ddigonol i rwystro'r bygythiadau hynny. Er y gall sefydliadau gymryd camau i leihau'r risgiau ar ddyfeisiau sydd dan berchnogaeth y sefydliad, cyfyngedig yw rheolaeth y sefydliad pan fydd pobl yn defnyddio'u dyfeisiau eu hunain ar gyfer gwaith.

Diffyg amgryptiad – gall defnyddio prosesau amgryptio i gael mynediad at ddyfeisiau helpu i atal colli data neu lygru offer.

Camgyfluniad diogelwch – mae'n hanfodol sicrhau bod yr holl blatfformau ac offer technoleg, gan gynnwys offer ar y we, wedi'u cyflunio a'u diweddaru'n gywir. Er bod llawer o gyfluniadau a diweddariadau yn awtomatig, mae rhai yn dibynnu ar unigolion i wneud y diweddariadau, ac mae'n bwysig eu bod yn deall sut i wneud hyn ([Imperva](#), dim dyddiad).

Seiberddiogelwch

Seiberddiogelwch yw sut mae unigolion a sefydliadau'n lleihau'r perygl o ymosodiad seiber. Y prif ffocws yw amddiffyn dyfeisiau a gwasanaethau rhag lladrad neu ddifrod. Er mai nod diogelwch gwybodaeth yw amddiffyn gwybodaeth ddigidol a chorfforol, mae seiberddiogelwch yn canolbwyntio ar ddiogelu digidol yn unig ([National Cyber Security Centre](#), dim dyddiad).

Gweithgaredd 18 Dysgu mwy am ddiogelwch gwybodaeth a seiberddiogelwch

 *Cymaint o amser ag sydd gennych chi*

Mae'r rhain yn feysydd cymhleth, ac argymhellir eich bod yn ymchwilio ymhellach i ddull a pholisi eich sefydliad yn y meysydd hyn. Man cychwyn da yw:

[Information Security guidance](#) gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

[What is Cyber Security](#) gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol

Neu, efallai yr hoffech astudio'r cwrs OpenLearn – [Introduction to cyber security](#)

5.6 Rheoli data, gwybodaeth a gwybodaeth ddigidol

Yn ogystal â diogelwch ein systemau, mae angen i ni hefyd feddwl am ddiogelwch y wybodaeth sydd gennym, sut rydym yn ei diogelu a sut rydym yn ei rhannu.

Mae'n bwysig deall nad yw data a gwybodaeth wedi'u cyfyngu i ddogfennau'n unig, ond yn hytrach mae'n gynnwys sy'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw system, ased neu gyfathrebiad sy'n bodoli'n ddigidol neu'n ffisegol.

Mae gwybodaeth fel arfer yn cael ei grwpio i'r categorïau canlynol: ddim yn gyfrinachol, mewnol, cyfrinachol. Dylech ddeall eich cyfrifoldebau o ran sut rydych yn trin gwybodaeth

a data o fewn y meysydd hyn, sy'n rhan o'r [Information Classification Software for ISO 27001](#).

Tabl 9

Ddim yn gyfrinachol	Mewnol yn unig	Cyfrinachol
Nid yw'r wybodaeth yn arbennig o werthfawr, ac nid oes angen i'r sefydliad ei diogelu. Gellir ei chychu gan unrhyw un ar gyfer unrhyw ddiben, yn cynnwys ei rhyddhau i'r cyhoedd neu gleientiaid. Gall gynnwys datganiadau i'r wasg, swyddi gwag ac ati.	Mae gan y wybodaeth werth yn fewnol a gallai fod o ryw faint o werth i gystadleuwyr. Gellir ei rhannu ag unrhyw un yn y sefydliad. Gallai gynnwys memoranda mewnol, data cyflogaeth, gwybodaeth am gontractau, ac ati.	Mae gan y wybodaeth werth sylweddol ac efallai y bydd gofynion cyfreithiol ar gyfer ei diogelu. Mae mynediad wedi'i gyfyngu i rolau neu lefelau penodol o fewn y sefydliad. Gallai gynnwys eiddo deallusol, manylion talu cwsmeriaid, cynllunio strategol hir dymor ac ati.

Ffynhonnell: [IT Governance](#) (dim dyddiad)

Mae gan wybodaeth felly werth ac mae'n hanfodol eich bod yn deall rheoli gwybodaeth ddigidol. Rheoli gwybodaeth ddigidol yw'r broses ar gyfer nodi, casglu, trefnu, storio a rhannu gwybodaeth ddigidol yn effeithiol fel ei bod ar gael yn hwylus i bawb sydd angen mynediad iddi. Mae hefyd angen y metadata cywir (data am y data) i alluogi offer cyfrifiadurol awtomataidd i gael mynediad - neu chwilio drwy'r - asedau.

Yn y fideo mae Nicola Askham, hyfforddwr llywodraethu data, yn esbonio beth a olygir wrth reoli data, a'r ystyriaethau ar gyfer rheoli data.

Video content is not available in this format.



Rheoli gwybodaeth ddigidol

Mae Rheoli Gwybodaeth Ddigidol (Digital Knowledge Management / DKM) yn allu digidol allweddol, sydd wedi'i integreiddio drwy fframwaith Galluoedd Digidol Jisc. DKM yw'r broses o nodi, casglu, dogfennu, trefnu a storio gwybodaeth ddigidol fel bod pawb, gan

gynnwys systemau cyfrifiadurol awtomataidd, yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth a chael mynediad ati yn rhwydd. Yn gynyddol, mae'n ymdrin â sut mae'r offer a'r systemau digidol yn eich sefydliad wedi'u cysylltu ac yn 'siarad' â'i gilydd, a sut y cânt eu defnyddio.

Ar lefel sefydliadol bydd arbenigwyr yn deall ac yn dylunio llifoedd gwaith, yn datblygu technoleg ac yn cynhyrchu pholisïau a chanllawiau i gefnogi pawb. Fodd bynnag, mae angen i bawb mewn sefydliad feddu ar ddealltwriaeth o'r ymddygiad sydd ei angen i reoli gwybodaeth yn effeithiol.

Ar lefel sylfaenol mae hyn yn cynnwys:

- cadw ffeiliau yn y lleoliad cywir
- peidio â chadw ffeiliau ar eich gyriannau caled eich hun
- gwneud copïau wrth gefn o ffeiliau'n rheolaidd
- peidio â gwneud copïau o ffeiliau a'u cadw nhw mewn mwy nag un lle
- ychwanegu enwau ffeiliau a metadata cywir.

Mae'n siŵr mai rheoli eich byd digidol yn effeithiol yw'r gallu digidol mwyaf defnyddiol y gallwch ei ddysgu. Mae cyflymu offer cydweithio a chymwysiadau a systemau 'dysgu peiranyddol' yn gofyn am reoli gwybodaeth ddigidol yn well, fel y gall sefydliadau ac unigolion ffynnu mewn byd digidol.

Gweithgaredd 19 Sut ydych chi'n rheoli asedau cyfryngau digidol?

 20 muned

Mae nifer o SAUau yn dechrau creu mwy o asedau cyfryngau digidol megis ffeiliau sain a fideos. Wrth i chi wyllo'r fideo isod, lle mae Jonathan Morgan, Prif Swyddog Gweithredol Object Matrix Ltd, yn rhannu sut mae Object Matrix yn rheoli asedau data a chyfryngau digidol, a'u diogelwch a'u llywodraethu, ystyriwch sut mae eich sefydliad yn rheoli asedau cyfryngau digidol.

Video content is not available in this format.



Video: Jonathan Morgan

Yna treuliwch ychydig o amser yn ymglyfarwyddo â pholisïau a chanllawiau rheoli data eich sefydliad chi.

Efallai yr hoffech wneud nodiadau yn y blwch isod.

Provide your answer...

6 Dyfodol digidol: trawsnewid digidol

Cyflymmodd trawsnewid digidol yn ystod y pandemig::

According to a new McKinsey Global Survey of executives, their companies have accelerated the digitization of their customer and supply-chain interactions and of their internal operations by three to four years. And the share of digital or digitally enabled products in their portfolios has accelerated by a shocking seven years

Ffynhonnell: [COVID-19 digital transformation & technology](#), McKinsey

Trawsnewid digidol yw sut mae sefydliadau'n gweithredu modelau busnes sy'n ystyried ac yn ysgogi datblygiad technoleg. Y nod yw gwella gallu ei bobl a datblygu prosesau i sicrhau ei fod yn gallu llwyddo yn y dyfodol.

Mae'r cyflymiad hwn wedi gweld cwmnïau'n cyflwyno atebion dros dro sydd bellach wedi'u gwreiddio ac yn datblygu i ddiwallu'r angen am ffyrdd newydd o weithio. Ar gyfer sefydliadau ac unigolion bydd hyn yn gofyn am y gwytnwch i barhau i weithio gydag ansicrwydd a dysgu sgiliau newydd wrth i dechnoleg newydd gael ei mabwysiadu.

Mae rhai o'r themâu allweddol y mae sefydliadau'n eu hystyried ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- awtomeiddio prosesau busnes - dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial (AI)
- cyfrifiadura cwmwl
- defnyddio data i ysgogi gwneud penderfyniadau
- denu talent gyda'r galluoedd digidol cywir
- dull dim ymddiriedaeth at ddiogelwch
- sut fydd y 'metaverse' yn datblygu
- cynaliadwyedd - cyrraedd sero net ac olion traed carbon.

Yn y fideo mae cyfranwyr yn esbonio beth sydd angen i sefydliadau ei ystyried ar gyfer trawsnewid digidol a'r galluoedd digidol sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol:

Video content is not available in this format.



Rydym yn clywed y term '4ydd chwyldro diwydiannol' yn aml. Yn y fideo canlynol, mae Jessica Leigh Jones MBE, Prif Swyddog Gweithredol IUNGO Solutions yn esbonio'n fyr beth mae hyn yn ei olygu.

Video content is not available in this format.



Gweithgaredd 20 Beth sy'n gyrru trawsnewid digidol?

 15 muned

Darllenwch

!Warning! inherit not supported[The 5 great shifts driving digital transformation \(digileaders.com\)](#), sy'n archwilio rhai o'r meysydd mae arweinwyr sefydliadau angen eu hystyried, a [The New Reality group's research themes](#) ac yna defnyddio'r ffeithlun ohono i feddwl am yr hyn sydd ei angen i alluogi trawsnewid digidol yn eich sefydliad.

Pa gamau sydd i weld yn briodol neu fwyaf perthnasol yn eich cyd-destun?



Ffigwr 9 Ffynhonnell: [The New Reality](#) (dim dyddiad)

Gweithgaredd 21 Archwilio beth allai fod ynghlwm â thrawsnewid digidol ar gyfer SAUau

 15 muned

Archwiliwch yr adnoddau isod:


[Leading the digital transformation of higher education, The Campus Learn, Share, Connect \(timeshighereducation.com\)](#)

[Dx: Digital Transformation of Higher Education | EDUCAUSE](#)

[Consider the Three Ds When Talking about Digital Transformation | EDUCAUSE](#)

Mae Educause yn awgrymu'r tri D yn y ddelwedd isod. Lle mae eich SAU chi ar ei daith tuag at drawsnewid digidol?

Interactive content is not available in this format.



Ffigwr 10 Trawsnewid digidol

Mae'n rhaid ystyried trawsnewid digidol yng nghyd-destun ehangach datblygiad sefydliadol a'r amgylchedd yr ydych yn gweithredu ynddo, gan gynnwys lleihau allyriadau carbon i gyrraedd sero net erbyn 2050.

6.1 Archwilio eich ôl troed carbon digidol

Mae cynaliadwyedd nawr yn hanfodol ac yn rhan o'r trawsnewid digidol y mae angen i sefydliadau ei ystyried. Yn yr adran hon byddwn yn ystyried beth all SAUau ei wneud i reoli eu hol troed carbon.

'TG yn aml yw un o'r cyfranwyr mwyaf at ôl troed carbon sefydliad addysg ei hun, gydag un coleg yn y DU yn priodoli 20% o'i allyriadau i TG yn unig.' ([Exploring digital carbon footprints, Jisc, 2022](#)). Bydd lleihau olion traed carbon digidol boed yn rhai sefydliadau neu unigolion yn dod yn flaenoriaeth gan fod SAUau wedi ymrwymo i gyrraedd sero net erbyn 2050 neu cyn hynny.

Mae'r adroddiad [Exploring digital carbon footprints](#) gan Jisc yn canolbwyntio ar ffynhonnell ac effaith pedwar maes allweddol: caffael, TG ar y safle, technolegau cwmwl a gweithio o bell, yr ydym yn argymhell eich bod yn ei ddarllen y tu allan i'r cwrs hwn oherwydd ei hyd.

Yn y fideo isod, mae Scott Stonham, awdur yr adroddiad, yn rhoi trosolwg o'r prif feysydd a drafodir yn yr adroddiad.

Video content is not available in this format.



Efallai yr hoffech ddarllen yr erthyglau canlynol ar [OpenLearn](#) gan Scott Stonham sy'n rhoi mewnwelediadau pellach:

- [Lleihau ôl troed carbon digidol y cwmwl](#)
- [Lleihau ôl troed carbon TG ar safleoedd](#)
- [Sut y gall pob un ohonom fynd i'r afael â'n hól troed carbon digidol](#)
- [Lleihau ôl troed carbon digidol drwy gaffael cyfrifol](#)
- [Olion troed carbon digidol a gweithio o bell](#)
- [Sut gall corfforaethau leihau olion troed carbon digidol?](#)
- [Beth yw ôl troed carbon digidol?](#)

Mae angen ystyried y strategaeth ar gyfer lleihau eich ôl troed carbon digidol ochr yn ochr â phob elfen o ddatblygiad sefydliadol. Os yw hwn yn faes y mae gennych ddiddordeb ynddo, byddem yn argymhell eich bod yn edrych ar y cwrs [Gweithio hybrid: datblygu sefydliadol](#) sy'n rhan o'r casgliad hwn.

Wrth i sefydliadau fabwysiadu arferion mwy cynaliadwy, mae angen i chi fel unigolyn fod yn agored i ffyrdd newydd o weithio, ac ymrwmo i newidiadau y gallwch eu gwneud yn eich bywydau proffesiynol a phersonol.

Gall fod yn anodd delweddu allyriadau carbon digidol oherwydd pa mor aml ydych chi'n meddwl beth sydd ei angen i dechnoleg fodoli? Pan fyddwch chi'n siarad am gyfrifiadura cwmwl pa ddelwedd sy'n dod i'r meddwl?

Ar lefel sylfaenol y rhesymau dros yr ôl troed carbon digidol cynyddol yw:

- gweithgynhyrchu a chludo rhannau a chynhyrchion
- pweru ac oeri seilweithiau technolegau
- cael gwared â gwastraff electronig (e-wastraff)
- ymddygiad defnyddwyr.

Nid yw prosesau gweithgynhyrchu bob amser yn gynaliadwy, mae canolfannau data (y cwmwl - y gweinyddion ffisegol sy'n storio ac yn prosesu data) yn defnyddio ynni'n barhaus ac angen awyru. Mae dyfeisiau electronig angen ynni i redeg a gall e-wastraft fod yn anodd ei ailgylchu oherwydd yr adnoddau na ellir eu hadnewyddu o fewn cynhyrchion.

Gweithgaredd 22 Lleihau ôl-troed carbon eich data digidol

 10 muned

Mae faint o ddata digidol a geir mewn sefydliadau yn tyfu'n ddyddiol, ac mae rheoli hynny yn her. Er y bydd gan sefydliadau bolisïau, prosesau a systemau awtomataidd i geisio lleihau data diangen, mae rhai o'r rhain yn dibynnu ar unigolion i reoli data digidol yn gyfrifol.

Yn y fideo isod, mae Scott yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â sut y mae data digidol yn cael effaith ar ôl-troed carbon digidol a'r mesurau y gall sefydliadau ac unigolion eu gweithredu. Wrth i chi wyllo, gwnewch nodiadau am feysydd y gwelwch chi y gellid eu mabwysiadu'n rhwydd, ac ymrwymwch i newidiadau y gallwch chi eu gwneud fel unigolyn.

Video content is not available in this format.



Mae'r adroddiad Exploring Digital Carbon yn cynnwys awgrymiadau syml sy'n gallu helpu i leihau olion traed carbon ac adnoddau i helpu i ddeall eich allyriadau, yn cynnwys y canlynol.

- Ystyriwch faint rydych chi'n defnyddio eich ffôn clyfar (y defnydd cyfartalog yw 2.5 awr y dydd).
- Lleihau disgleirdeb eich monitor.
- Diffoddwch eich dyfeisiau, hyd yn oed os ydynt ar "stand-by".

- Defnyddiwch llai ar e-bost - darllenwch yr erthygl – [‘The hidden cost of your emails on the planet’](#)
- Symleiddiwch eich llofnod e-bost - cael gwared ar ddelweddau diangen.
- Dilëwch ffeiliau electronig ac e-byst nad ydych eu hangen a gwagwch eich ffolderi eitemau wedi'u dileu.
- Lawrlwythwch yn hytrach na ffrydio sain a fideos.
- Datdanysgrifiwch i e-gylchlythyrau nad ydych yn dymuno eu derbyn bellach.
- Ymestyn oes eich cynhyrchion - a ydych chi wir angen y model diweddaraf? Cofiwch: lleihau, atgyweirio, aildddefnyddio ac ailgylchu.

Yn y fideo hwn, mae Scott yn rhoi awgrymiadau a chynghorion ynglŷn â sut y gallwch leihau eich ôl-troed carbon digidol.

Video content is not available in this format.



Casgliad

Mae datblygu eich sgiliau, galluedd ac ymddygiad digidol, fel unigolyn a'r rheiny o fewn eich sefydliad yn broses barhaus wrth i dechnoleg a ffyrdd o weithio datblygu. Mae ein dibyniaeth ar dechnoleg yn hanfodol i fyw a gweithio.

Wrth i'ch hyder a gallu dyfu byddwch yn gallu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a defnyddio technoleg yn gyfrifol a chynaliadwy er eich budd chi wrth sicrhau y gellir diwallu anghenion eich sefydliad, eich myfyrwyr a'r gymuned ehangach mewn byd digidol

Digidol yng Nghymru: cyfle

Ar ddechrau'r cwrs hwn gwnaethom ofyn i chi ddarllen [Taith tuag at Gymru lewyrchus](#) – Adran 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol.

Ystyrir Cymru yn un o'r gwledydd mwyaf datblygedig yn y byd am ei hagwedd arloesol at gynaliadwyedd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae ei strategaeth ddigidol yn nodi'n glir yr hyn sydd ei angen i datblygu'r sgiliau a'r seilwaith ar gyfer y dyfodol.

Wrth dynnu ar y nodiadau rydych wedi'u gwneud yn ystod y cwrs, ac adolygu'r [Strategaeth ddigidol i Gymru](#), beth ydych chi'n meddwl y mae angen i SAUau ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol i datblygu galluedd digidol ac i sicrhau bod eu trawsnewid digidol yn diogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol?

Mae'r cwrs hwn yn rhan o'r casgliad [Cefnogi gweithio hybrid yng Nghymru](#), efallai yr hoffech ei archwilio ymhellach.

References

- Askham, N. (2019) 'Why You Need Data Governance', *Nicola Askham The Data Governance Coach*, 7 Mehefin [Blog]. Ar gael yn: <https://www.nicolaaskham.com/blog/tag/DMBOK> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Brown, A. (2022) 'The 5 great shifts driving digital transformation', *Digital Leaders*, 19 Mai [Blog]. Ar gael yn: <https://digileaders.com/the-5-great-shifts-driving-digital-transformation/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Center for Digital Darnell (dim dyddiad) *The Digital Competence Wheel* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://digital-competence.eu/dc/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Y Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (2022) 'Pontio'r rhaniad digidol yng Nghymru', *Llywodraeth Cymru*, y Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, 7 Ebrill [Blog]. Ar gael yn: <https://gwasanaethaucyhoeddusdigidol.llyw.cymru/pontior-rhaniaid-digidol-yng-nghymru/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Chando, L. (2019) *Maslow hierarchy of digital needs to youth: digital needs in business contexts* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.linkedin.com/pulse/maslow-hierarchy-digital-needs-youth-business-contexts-laston-chando/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- CWJobs (n.d.) *The hidden cost of your emails on the planet* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.cwjobs.co.uk/insights/environmental-impact-of-emails/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2019) *Taith tuag at Gymru lewyrchus* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/09/Prosperous-Wales-Topic-5-welsh.pdf> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2022) *Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* (Cymru) Deddf 2015 [Online]. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

GitLab (dim dyddiad) *GitLab SAFE Framework* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://about.gitlab.com/handbook/legal/safe-framework/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Good Things Foundation (2021) *The digital divide* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.goodthingsfoundation.org/the-digital-divide/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

GOV.UK (2018) *Essential digital skills framework* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/738922/Essential_digital_skills_framework.pdf (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

GOV.UK (2019) *Essential digital skills framework* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/essential-digital-skills-framework> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Gov.uk (dim dyddiad) *The Skills Toolkit* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://theskillstoolkit.campaign.gov.uk/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Gov.uk (dim dyddiad) *Learn how to use the internet* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.learnmyway.com/> (Cyrchwyd ar: 23 Awst 2022).

Gov.uk (dim dyddiad) *Intellectual property and your work* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/intellectual-property-an-overview> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Gov.uk (dim dyddiad) *Patents, trade marks, copyright and designs* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/browse/business/intellectual-property> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Llyw.cymru (2020) *Cynhwysiant Digidol a Sgiliau Digidol Sylfaenol* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/gynhwysiant-digidol-a-sgiliau-digidol-sylfaenol.pdf> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Llyw.cymru (dim dyddiad) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/fframwaith-cymhwysedd-digidol> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Llyw.cymru (dim dyddiad) *Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/rhagolwg-cynhwysiant-digidol-tuag-gymru-ddigidol-hyderus> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Llyw.cymru (dim dyddiad) *Cymunedau Cysylltiedig Cymru* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Imperva (dim dyddiad) *What is Information Security (InfoSec)?* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.imperva.com/learn/data-security/information-security-infosec> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *Guide to the UK General Data Protection Regulation (UK GDPR): Egwyddorion* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/principles/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *Guide to the UK General Data Protection Regulation (UK GDPR): Diogelwch* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/security/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Swyddfa Eiddo Deallusol (1988) *Copyright, Designs and Patents Act 1988* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attach->

- [ment_data/file/957583/Copyright-designs-and-patents-act-1988.pdf](#) (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- IT Governance (n.d.) *Information Classification Software for ISO 27001* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.itgovernance.co.uk/data-classification-software> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Java Assignment Help (2021) 'Top 11 essential uses of technology in everyday life', *Java Assignment Help*, 14 Medi [Blog]. Ar gael yn: <https://www.javaassignmenthelp.com/blog/uses-of-technology/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Jisc (2022) *Deall eich ôl troed carbon digidol*, 10 Mehefin [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.jisc.ac.uk/reports/exploring-digital-carbon-footprints> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Jisc (dim dyddiad) *What is digital capability* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://digitalcapability.jisc.ac.uk/what-is-digital-capability/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Jisc (dim dyddiad) *Discovery tool* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.digitalcapability.jisc.ac.uk/our-service/discovery-tool/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Jisc (dim dyddiad) *Individual digital capabilities* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.digitalcapability.jisc.ac.uk/what-is-digital-capability/individual-digital-capabilities/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Jisc (dim dyddiad) *Digital wellbeing* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://digitalcapability.jisc.ac.uk/what-is-digital-capability/digital-wellbeing/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Learn My Way (dim dyddiad) *Online safety* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.learnmyway.com/subjects/online-safety/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- McKinsey & Company (2020) *How COVID-19 has pushed companies over the technology tipping point—and transformed business forever*, 5 Hydref [ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.mckinsey.com/business-functions/strategy-and-corporate-finance/our-insights/how-covid-19-has-pushed-companies-over-the-technology-tipping-point-and-transformed-business-forever> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol (dim dyddiad) *Careers advice* [Ar-lein] Ar gael yn: <https://nationalcareers.service.gov.uk/careers-advice> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (2021a) *Top tips for staying secure online* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.ncsc.gov.uk/collection/top-tips-for-staying-secure-online> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (2021b) *Connected places cyber security principles* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.ncsc.gov.uk/collection/connected-places-security-principles/understanding-your-connected-place/understanding-the-risks-to-your-connected-place> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (dim dyddiad) *What is cyber security?* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.ncsc.gov.uk/section/about-ncsc/what-is-cyber-security> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Norton (2021) *20 internet safety tips and checklist to help families stay safer online*, 13 Awst [Ar-lein] Ar gael yn: <https://us.norton.com/internetsecurity-kids-safety-stop-stressing-10-internet-safety-rules-to-help-keep-your-family-safe-online.html#> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

- OECD Digital Government Policy Framework (31 Mawrth 2021) Fideo YouTube video, Ychwanegwyd gan OECD KPC Public Governance Programme [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.youtube.com/watch?v=3Gj8cvrrTsg> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (2022a) *Is hybrid working here to stay?* 23 May [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/isahybridworkingheretostay/2022-05-23> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (2022b) *Business insights and impact on the UK economy*, 10 Mawrth 2022 [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/businessinsightsandimpactontheukeconomy/10march2022> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Orlik, J. (2018) *Four steps to define digital skills*, 13 Chwefror [Ar-lein] Ar gael yn: <https://www.nesta.org.uk/blog/four-steps-to-define-digital-skills/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Preferred IT Group (2019) 'The three goals of cyber security-CIA Triad defined', *Preferred IT Group* 27 Awst [Blog]. Ar gael yn: <https://www.preferreditgroup.com/2019/08/27/the-three-goals-of-cyber-security-cia-triad-defined/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Reinitz, B. (2020) *Consider the Three Ds When Talking about Digital Transformation*, 1 Mehefin [Ar-lein] Ar gael yn: <https://er.educause.edu/blogs/2020/6/consider-the-three-ds-when-talking-about-digital-transformation> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- The New Reality (n.d) *Key themes from the research* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://thenewreality.info/all-themes> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- The New Reality (n.d) *20 Ways to achieve digital transformation* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://thenewreality.info/poster> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- The Open University (2019) *Introduction to cyber security: stay safe online* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.open.edu/openlearn/science-maths-technology/introduction-cyber-security-stay-safe-online?active-tab=description-tab> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Y Brifysgol Agored (2020) – *Addysg gynhwysol: deall yr hyn a olygwn* (Wales) [Online]. Ar gael yn: <https://www.open.edu/openlearn/education-development/education-careers/addysg-gynhwysol-deall-yr-hyn-olygwn-cymru/content-section-overview> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Times Higher Education (dim dyddiad) *Leading the digital transformation of higher education* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.timeshighereducation.com/campus/spotlight/leading-digital-transformation-higher-education> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Turner, J. (2022) *The 7 Main Ways Technology Impacts Your Daily Life*, 20 Awst [Ar-lein] Ar gael yn: <https://tech.co/vpn/main-ways-technology-impacts-daily-life> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Gwasanaeth Hawlfraint y DU (2022) *UK Copyright Law: Fact sheet P-01* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://copyrightservice.co.uk/copyright/p01_uk_copyright_law (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Senedd y DU (2020) *COVID-19 and the digital divide*, 17 Rhagfyr [ar-lein]. Ar gael yn: <https://post.parliament.uk/covid-19-and-the-digital-divide/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).
- Rhaglen Bwyd y Byd y Cenhedloedd Unedig (dim dyddiad) *Freerice* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://freerice.com/categories/english-vocabulary> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (2022) *Hwb Hawlfraint* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/cymorth-a-chefnogaeth/cefnogaeth-ar-gyfer-staff/hwb-hawlfraint/> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Rhaglen Bwyd y Byd (dim dyddiad) *WFP and the Sustainable Development Goals* [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.wfp.org/sdgs> (Cyrchwyd ar: 1 Medi 2022).

Acknowledgements

Ysgrifennwyd y cwrs am ddim hwn gan Esther Spring, gyda chefnogaeth Jo Parker.

Ar wahân i ddeunyddiau trydydd parti ac fel arall (gweler [telerau ac amodau](#)), mae'r cynnwys hwn ar gael dan

[Drwydded Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0](#).

Mae'r deunydd a gydnabyddir isod yn Berchnogol ac fe'i defnyddir dan drwydded (nad yw'n destun y Drwydded Creative Commons). Cydnabyddir y ffynonellau canlynol gyda diolch am ganiatâd i atgynhyrchu deunydd yn y cwrs am ddim hwn:

Delweddau

Delwedd Cwrs: Chris Canon; Alamy Stock Photo

Ffigwr 1: © Hawlfraint y Goron 2018; o

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/738922/Essential_digital_skills_framework.pdf

Ffigwr 2: Y Brifysgol Agored; source <https://www.javaassignmenthelp.com/blog/uses-of-technology/>

Ffigwr 3: trwy garedigrwydd Esther Spring

Ffigwr 5: © Akbayrak Emre;

<https://bluesyemre.com/2019/08/19/digital-needs-pyramid-of-maslow-2-0/>

Ffigwr 6: © Dama International (2017)

Figure 7: © 2022 Gitlab B.V.,

Ffigwr 9: © Julie Dodd; CC BY-NC-SA

Ffigwr 10: © 2020 Betsy Tippens Reinitz, wedi'i gymryd o Consider the Three Ds When Talking about Digital Transformation

Gwnaethpwyd pob ymdrech i gysylltu â pherchnogion hawlfraint. Os esgeuluswyd unrhyw un yn anfwriadol, bydd y cyhoeddwr yn hapus i wneud y trefniadau gofynnol ar y cyfle cyntaf.

Peidiwch â cholli allan

Os yw darllen y testun hwn wedi eich ysbrydoli i ddysgu mwy, efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r miliynau o bobl sy'n darganfod ein hadnoddau dysgu a chymwysterau am ddim trwy droi at y Brifysgol Agored –

www.open.edu/openlearn/free-courses.